# Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 a 1963 Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

Ffurflen Gais am Drwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant (Cymru) i blant [sy'n byw/ cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd] o fewn ffiniau

**Nodwch: dylid llenwi a chyflwyno'r ffurflen hon i'r awdurdod trwyddedu dim llai nag 21 diwrnod cyn y perfformiad neu weithgaredd cyntaf y gofynnir am drwydded ar ei gyfer, oherwydd efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu'n gwrthod rhoi trwydded fel arall. Mae'n bosibl na roddir trwydded os daw'r cais i law llai nag un diwrnod ar hugain cyn y dyddiad y mae'r drwydded yn ofynnol arno. Mae'n annhebygol iawn y rhoddir trwydded os daw'r cais i law llai na phum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae'r drwydded yn ofynnol arno.**

Ystyr cyfeiriadau at "y Rheoliadau" yw Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

## Rhan A: Gwybodaeth i gael ei darparu gan y ceisydd ynghylch y plentyn

Gweler rheoliad 4 a Rhan 1 o Atodlen 2 o'r Rheoliadau.
Fel arfer bydd angen i'r ceisydd gael y wybodaeth hon gan riant y plentyn ac mae angen i riant y plentyn lofnodi'r ffurflen wedi'i llenwi, ond y ceisydd ddylai gyflwyno'r ffurflen oni fo'r rhiant hefyd yn gyfrifol am drefnu'r perfformiad neu'r gweithgaredd.

| | |
|---|---|
| A1) Enw'r plentyn: | |
| A2) Cyfeiriad cartref y plentyn: | |
| A3) Dyddiad geni'r plentyn: | |

| | |
|---|---|
| A4) Enw a chyfeiriad yr ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd:<br>NEU<br>Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, enw a chyfeiriad athro preifat neu athrawes breifat y plentyn: | |

| | |
|---|---|
| A5) Manylion pob trwydded mewn perthynas â'r plentyn a roddwyd yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais gan unrhyw awdurdod lleol neu, yn yr Alban, gan unrhyw awdurdod addysg, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y mae'r cais yn cael ei wneud iddo[1], gan ddatgan -<br>a) Enw'r awdurdod; | |
| b) Y dyddiad pan roddwyd y drwydded; | |
| c) Dyddiadau a natur y perfformiadau neu'r gweithgareddau: | |

| | |
|---|---|
| A6) Manylion pob cais mewn perthynas â'r plentyn am drwydded a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod arall yn y 12 mis diwethaf, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu mae'r cais hwn yn cael ei wneud iddo, gan ddatgan -<br>a) Enw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg; | |
| b) Y rhesymau (os ydynt yn hysbys) dros wrthod rhoi trwydded: | |

| | |
|---|---|
| A7) Manylion unrhyw berfformiadau nad oedd trwydded yn ofynnol amdanynt[2] y cymerodd y plentyn ran ynddynt yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys cynyrchiadau oedd yn esempt rhag y gofyniad i gael trwydded, gan nodi -<br>a) Dyddiad y perfformiad(au); | |
| b) Nifer y diwrnodau y cynhaliwyd y perfformiad; | |
| c) Teitl y perfformiad(au); | |
| d) enw a chyfeiriad y person(au) a oedd yn gyfrifol am y cynhyrchiad / cynyrchiadau: | |

[1] Ni fydd hyn yn berthnasol ond os yw'r plentyn wedi symud rhwng awdurdodau yn y 12 mis diwethaf.

[2] Adran 37(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963: mae hyn yn cynnwys perfformiadau a drefnir gan ysgolion, lle mae cymeradwyaeth corff o bersonau wedi cael ei rhoi, a lle roedd y plentyn wedi perfformio am lai na phedwar diwrnod yn y chwe mis cyn y perfformiad perthnasol

| | |
|---|---|
| A8) Y dyddiadau (os oes rhai) pan oedd y plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais oherwydd ei fod wedi cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, gan gynnwys y rheiny oedd wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded: | |

| | |
|---|---|
| A9) Swm unrhyw arian a enillwyd gan y plentyn yn ystod y deuddeng mis diwethaf, gan ddatgan a oedd yr arian a enillwyd yn arian mewn cysylltiad â pherfformiadau neu weithgareddau y rhoddwyd trwydded ar eu cyfer neu berfformiad nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar ei gyfer: | |

## Rhan B: Gwybodaeth i gael ei darparu gan y ceisydd ynghylch y perfformiad neu'r gweithgareddau

Gweler Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

Y **Ceisydd** yw'r person sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgaredd neu'r perfformiad, a fydd yn gyfrifol am sicrhau y bodlonir amodau'r drwydded.

Arfer gorau yw i bob sefydliad sy'n cynnwys plant mewn perfformiadau, gwaith modelu am dâl neu chwaraeon am dâl feddu ar bolisi amddiffyn plant neu ddatblygu un, ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn gyfarwydd ag ef.

| | |
|---|---|
| Teitl: | |
| Enw: | |
| Teitl swydd: | |
| Sefydliad: | |
| Cyfeiriad: | |
| Ffôn: | Symudol: |
| E-bost: | |

| | |
|---|---|
| B1) A oes gan eich sefydliad bolisi amddiffyn plant neu bolisi diogelu? Pryd gafodd y polisi ei ddiweddaru diwethaf? Rhowch ddolen iddo neu amgaewch gopi ohono. | |

| | |
|---|---|
| B2) Ydych chi wedi cwblhau asesiad risg? Os ydych, amgaewch ef gyda'r cais hwn. Os nad ydych, esboniwch sut y byddwn yn canfod a lliniaru'r risgiau i'r plentyn drwy gydol y cyfnod y gofynnir am y drwydded hon amdano. | |

| | |
|---|---|
| B3) Enw a natur[3] y perfformiadau neu weithgareddau y gofynnir am y drwydded mewn cysylltiad â hwy: | |
| Rhowch ddisgrifiad mor llawn ag y gallwch o'r hyn y bydd yn ofynnol i'r plentyn ei wneud. Rhowch wybodaeth am yr amgylchedd y gofynnir iddo ei wneud ynddo ac unrhyw wybodaeth gyd-destunol arall a all ein helpu wrth asesu'r risgiau corfforol, emosiynol neu seicolegol posibl i'r plentyn[4]. | |

| | |
|---|---|
| B4) Y man lle y cynhelir y gweithgareddau, y perfformiadau a'r ymarferion y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw gyfnodau ar leoliad: | |

| | |
|---|---|
| B5) Dyddiadau ac amserau gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer:<br>Os nad yw'r dyddiadau'n hysbys ar hyn o bryd[5], rhowch nifer y diwrnodau, a'r cyfnod pryd, y gofynnir i'r plentyn gael cymryd rhan mewn gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion. | |

| | |
|---|---|
| B6) Parhad neu hyd amser cyfan disgwyliedig y gweithgareddau neu berfformiadau (gan gynnwys unrhyw ymarferion) y gofynnir am drwydded mewn cysylltiad â hwy: | |

| | |
|---|---|
| B7) Bras amcan o hyd ymddangosiad y plentyn yn y perfformiad neu weithgaredd: | |

---

[3] Er enghraifft, theatrig, cerddorol, dawnsio, ffilmio, chwaraeon, modelu.
[4] Ni ddylai fod angen darparu sgript – y disgrifiad o'r gweithgaredd a'r cyd-destun sydd bwysicaf.
[5] Gallai hyn fod oherwydd na ellir pennu'r amserlen ffilmio ymlaen llaw, neu oherwydd bod y gweithgaredd yn dibynnu ar y tywydd.

| | |
|---|---|
| B8) Faint o waith nos (os oes gwaith nos) y gwneir cais am gymeradwyaeth ar ei gyfer a nodwch:<br>a) bras amcan o nifer y diwrnodau[6]: | |
| b) bras amcan o'i hyd ar bob diwrnod: | |
| c) y rheswm y mae'n rhaid i'r perfformiad fod ar ffurf gwaith nos: | |

| | |
|---|---|
| B9) a) Y symiau sydd i'w hennill gan y plentyn drwy gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd: | |
| b) Enw, cyfeiriad a disgrifiad[7] y person y mae'r symiau i'w talu iddo (os na fyddant yn cael eu talu i'r plentyn o dan sylw): | |

| | |
|---|---|
| B10) Pan ofynnir am drwydded mewn cysylltiad â pherfformiad, y trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw ymarferion cyn y perfformiad cyntaf y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer. Ar gyfer pob ymarfer rhowch<br>a) y dyddiad; | |
| b) y man; a | |
| c) bras amcan o'r amser a'r hyd: | |

[6] At y dibenion hyn mae unrhyw berfformiad sy'n digwydd ar ôl hanner nos a chyn yr awr gynharaf a ganiateir yn cyfrif fel estyniad i'r diwrnod blaenorol. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn perfformio ar ddydd Mawrth ac yna'n perfformio ar ôl hanner nos, yn oriau mân bore Mercher, mae hynny'n cyfrif fel un diwrnod (dydd Mawrth).

[7] Os mai unigolyn yw hwn, beth yw ei berthynas â'r plentyn? Os mai cwmni neu sefydliad ydyw, beth yw ei berthynas â'r plentyn?

| | |
|---|---|
| B11) Y diwrnodau neu'r hanner diwrnodau y gofynnir am ganiatâd i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol arnynt i'w alluogi i gymryd rhan yn y perfformiad, ymarferion neu weithgaredd: | |
| Mae'n <u>rhaid</u> i chi amgáu llythyr oddi wrth bennaeth yr ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd neu, os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, oddi wrth athro preifat neu athrawes breifat y plentyn, yn cytuno i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol neu addysg ac yn dweud nad fydd effaith niweidiol ar addysg a lles y plentyn. | |

| | |
|---|---|
| B12) Y trefniadau arfaethedig (os oes rhai) ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer, gan ddatgan -<br>a) Pan fo'r addysg i'w darparu gan ysgol, enw a chyfeiriad yr ysgol: | |
| b) Pan fo'r addysg i'w darparu ac eithrio drwy gyfrwng ysgol:<br>i. enw, cyfeiriad a chymhwyster/cymwysterau'r athro preifat arfaethedig neu'r athrawes breifat arfaethedig; | |
| ii. y man lle y caiff y plentyn ei addysgu; | |
| iii. y cwrs astudio arfaethedig; | |
| iv. nifer y plant eraill sydd i'w haddysgu yr un pryd gan yr un athro preifat neu'r un athrawes breifat, a rhyw ac oedran pob plentyn; | |
| v. faint o addysg mae'r plentyn i'w gael: Yn unol â Rheoliad 15 (3) (d) Rheoliad Plant (Gweithgareddau Perfformiadau) (Cymru) 2015 | |

| | |
|---|---|
| B13) Enw a chyfeiriad yr hebryngwr arfaethedig, neu pan na fo'n ofynnol cael unrhyw hebryngwr, enw a chyfeiriad y rhiant neu'r athro neu'r athrawes a fydd â gofal dros y plentyn: | |

| | |
|---|---|
| B14) Enw'r awdurdod lleol neu, yn yr Alban, yr awdurdod addysg a gymeradwyodd gynt benodiad yr hebryngwr: | |

| | |
|---|---|
| B15) Nifer y plant sydd i fod yng ngofal yr hebryngwr yn ystod yr amser y bydd yr hebryngwr â gofal dros y plentyn, a rhyw ac oedran pob plentyn: | |

| | |
|---|---|
| B16) Cyfeiriad unrhyw lety lle y bydd y plentyn yn byw os yw'n wahanol i'r man lle y byddai'r plentyn yn byw fel arfer, nifer y plant eraill a fydd yn byw yno a manylion am yr hebryngwr (os oes un) a fydd yn byw yn yr un llety: | |

| | |
|---|---|
| B17) Bras amcan o hyd yr amser y bydd y plentyn yn ei dreulio yn teithio i ac o'r man lle cynhelir y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd pob dydd, gan gynnwys:<br>a) Y trefniadau (os oes rhai) ar gyfer cludo'r plentyn i'r man hwnnw, ac | |
| b) Y trefniadau (os oes rhai) ar gyfer cludo'r plentyn o'r man hwnnw: | |

| | |
|---|---|
| B18) Enw unrhyw awdurdod lleol arall neu, yn yr Alban, unrhyw awdurdod addysg arall y mae cais wedi ei wneud iddo i blentyn arall gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os nad yw'n hysbys adeg gwneud y cais, mae i'w ddarparu pan fo'n hysbys):<br>(Bydd hyn yn helpu'r awdurdodau lleol perthnasol i gymryd ymagwedd gyson) | |

## Llofnodion

**Yr wyf yn tystio bod y manylion yn y cais hwn yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Yr wyf, drwy hyn, yn gwneud cais am drwydded o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod y ceisydd:**<br>(I'w lofnodi gan y person a enwir ar ddechrau Rhan B) | |
| **Enw'r ceisydd:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Yr wyf yn tystio bod manylion y cais yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Yr wyf yn cytuno i'm plentyn gymryd rhan yn y perfformiad neu weithgaredd a ddisgrifir uchod yn Rhan B:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod y rhiant:**<br>(I'w lofnodi gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant[8] am y plentyn a enwir ar ddechrau Rhan A) | |
| **Enw'r rhiant:** | |
| **Dyddiad:** | |

Nodiadau ychwanegol:

a) Mae fersiynau electronig o'r ffurflen hon a dogfennau electronig yn dderbyniol, gan gynnwys llofnodion.

b) Dylai'r ceisydd sicrhau y rhoddir i'r rhiant/gwarcheidwad a'r hebryngwr gopi o'r ffurflen gyfan wedi'i llenwi, yr ydych yn ei chyflwyno i'r awdurdod lleol.

c) Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amod y rhoddir trwydded yn amodol iddo neu sy'n gwneud datganiad anwir gan wybod hynny neu'n ei wneud yn ddi-hid mewn cais neu mewn cysylltiad â chais am drwydded yn agored i gael dirwy heb fod yn fwy na £1000 (lefel 3 ar y raddfa safonol) neu i gael ei garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis neu'r ddau (adran 40 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963).

[8] Fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989, ystyr 'cyfrifoldeb rhiant' yw'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn o dan y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

# Datganiad meddygol i gael ei lenwi a'i lofnodi gan riant y plentyn

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r plentyn | | |
| A oes gan eich plentyn: | | Os oes, rhowch y manylion gan gynnwys unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth: |
| Asthma? | Oes/Nac oes | |
| Unrhyw alergeddau? | Oes/ Nac oes | |
| Unrhyw gyflyrau ar y croen? | Oes/ Nac oes | |
| Nam ar y clyw? | Oes/ Nac oes | |
| Nam ar y golwg? | Oes/ Nac oes | |
| Unrhyw anabledd dysgu? | Oes/ Nac oes | |
| Unrhyw anabledd corfforol? | Oes/ Nac oes | |
| Unrhyw gyflyrau meddygol? | Oes/ Nac oes | |
| Ydi'ch plentyn wedi bod yn cymryd unrhyw feddyginiaeth reolaidd? | Ydi/ Nac ydi | |
| Ydi'ch plentyn wedi gweld, neu wedi cael ei atgyfeirio at, feddyg ymgynghorol mewn ysbyty yn y chwe mis diwethaf? | Ydi/ Nac ydi | |

| | |
|---|---|
| Yr wyf yn cadarnhau bod gennyf gyfrifoldeb rhiant[9] am y plentyn hwn. | Llofnod y rhiant: |
| | Printiwch eich enw: |
| Cyfeiriad post (os yw'n wahanol i gyfeiriad y plentyn) | |
| Cyfeiriad e-bost y rhiant | |
| Rhif ffôn y rhiant | |
| Dyddiad: | |

[9] Fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989, ystyr 'cyfrifoldeb rhiant' yw'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn o dan y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

## Dogfennau gofynnol

### Cadarnhewch eich bod wedi cynnwys y dogfennau canlynol[10] gyda'r cais wedi'i lofnodi:

| **Dogfen** | **Cadarnhau** |
|---|---|
| Copi o dystysgrif geni'r plentyn (mae copïau wedi'u sganio'n dderbyniol – peidiwch ag anfon copïau caled gwreiddiol)[11]:<br>*(Cwestiynau A1 ac A3)* | |
| Dau ffotograff union yr un fath o'r plentyn a dynnwyd yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y cais – printiau *neu* lun electronig (e.e. ffeil jpeg)[12]: | |
| Copi o'r contract, y contract drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb sy'n rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiadau, neu'n rheoleiddio'r gweithgaredd, y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer neu ar eu cyfer: | |
| Y polisi neu bolisïau amddiffyn plant a gymhwysir gan y ceisydd:<br>*(Cwestiwn B1)* | |
| Yr asesiad risg (os oes un wedi'i gwblhau) ar gyfer y perfformiad neu'r gweithgaredd:<br>*(Cwestiwn B2)* | |
| Llythyr oddi wrth bennaeth yr ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd neu, os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, oddi wrth athro preifat neu athrawes breifat y plentyn, yn cytuno i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol neu addysg ac yn dweud nad fydd effaith niweidiol ar addysg a lles y plentyn: Ffurflen wedi'i hamgáu<br>*(Cwestiwn B11) tudalennau 12 a 13* | |
| Y datganiad meddygol wedi'i lenwi a'i lofnodi gan riant y plentyn<br>*tudalen 10* | |

[10] Rheoliad 4(1)(d) a Rhan 3 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau

[11] O dan yr amgylchiadau eithriadol pan na ellir darparu tystysgrif geni'r plentyn fel rhan o'r cais (e.e. oherwydd nad oes un ganddo) mae'n bosibl y bydd yr awdurdod trwyddedu'n derbyn tystiolaeth arall.

[12] Rhaid nad yw'r llun wedi cael ei newid neu ei wella mewn unrhyw ffordd. Dylai fod yn llun llawn o'r pen a dynnwyd mewn golau da.

## <u>Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant</u>
## <u>Datganiad Pennaeth</u>

Dylai'r datganiad hwn gael ei lenwi gan Bennaeth yr ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd a dylai gael ei gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu gan y ceisydd[13], i gyd-fynd â'r **Ffurflen Gais am Drwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant**.

| | |
|---|---|
| Enw'r plentyn | |
| Ysgol | |
| Enw'r perfformiad neu'r gweithgaredd | |
| Natur y perfformiad neu'r gweithgaredd[14] | |
| Dyddiadau'r gweithgaredd, perfformiad neu ymarfer<br><br>NEU<br>Nifer y diwrnodau pan fydd y plentyn yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, y perfformiadau neu'r ymarferion, a'r cyfnod, nad yw'n hwy na chwe mis[15] | |

<u>**Pwysig**</u> – Trwy lenwi'r datganiad hwn, yr wyf i (Pennaeth y plentyn) yn cadarnhau (dileer lle bo'n briodol):

1. **gall/na all** y plentyn fod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau neu'r nifer o ddiwrnodau yn y cyfnod a nodir at ddiben y gweithgaredd, perfformiad neu ymarfer datganedig

Ac:

2. **na fydd/gall fod** effaith niweidiol ar addysg a lles y plentyn o ganlyniad i gymryd rhan yn y gweithgaredd, perfformiad neu ymarfer datganedig

Llofnodwyd:……………………………..…………………………………..………………

Printiwch eich enw:………………….……………………………….…………………...

[13] Ceisydd – y person sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgaredd neu gynhyrchu'r perfformiad
[14] Er enghraifft, theatrig, ffilmio, chwaraeon, modelu, dawnsio
[15] RHAID cael caniatâd gan y pennaeth ar gyfer pob achlysur mae'r plentyn i fod allan o'r ysgol

Dyddiad:…………………………..…………………………………..…………………..

Ni chaniateir i awdurdod lleol roi trwydded oni bai ei fod wedi cael llythyr oddi wrth bennaeth ysgol y plentyn yn cadarnhau na fydd ei addysg yn dioddef. Nid mater o golli'r ysgol yn unig yw hyn – er y bydd cynnal presenoldeb da yn rhan o ystyriaeth y pennaeth o'r cais – ond mater o unrhyw beth a allai gael effaith niweidiol ar ei ddysgu, fel nosweithiau hwyr rheolaidd, diffyg amser i gwblhau gwaith cartref, neu bethau eraill a allai amharu ar addysg neu les ehangach y plentyn.

Sylwadau'r Pennaeth:

……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………....
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
…………………………………………...…………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………...………………………………
……………………………………………………………...……………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………...………………………………
……………………………………………………………...……………………………
……………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………...………………………………

……………………………………………………………...…………………………………

………………………………………………………………………………………………